



Bwletin GwE



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i [ymuno â'n rhestr bostio](#).

Diolch

STAFF ADDYSGU CYMRU SCHOOL STAFF



Neges gan GwE ac Awdurdodau Lleol y Rhanbarth

Gobeithio eich bod chi a chymuned yr ysgol yn cadw'n iawn ac yn ddiogel.

Ymhellach i gyhoeddiadau diweddar yn Lloegr am ysgolion yn ailagor, teimlwn ei bod yn bwysig ein bod yn ysgrifennu atoch i roi gwedd gliriach ar y sefyllfa yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae'r Gweinidog wedi dweud yn glir y bydd unrhyw benderfyniad ar ailagor ysgolion yng Nghymru yn cael ei lywio gan y cyngor gwyddonol diweddaraf un, ac y bydd y penderfyniad hwn ar sail bodloni pum egwyddor allweddol:

1. Ddiogelwch a lles meddyliol, emosiynol a chorfforol myfyrwyr a staff
2. Cyfraniad parhaus i'r ymdrech a'r strategaeth genedlaethol i atal lledaeniad COVID-19
3. Cael hyder rhieni, staff a myfyrwyr, ar sail tystiolaeth a gwybodaeth, fel y gallant gynllunio i'r dyfodol
4. Y gallu i flaenoriaethu dysgwyr ar bwyntiau allweddol, gan gynnwys y rhai hynny o gefndiroedd difreintiedig
5. Bod yn gyson â fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau, bod ag arweiniad mewn lle i gefnogi mesurau megis ymbellhau, rheoli presenoldeb a chamau gwarcheidiol ehangach.

Pwysleisiodd y Gweinidog hefyd yn ei haraith mai y hi fyddai'n gwneud unrhyw gyhoeddiad am ailagor ysgolion, ac y byddai'n gwneud hynny ymhell ymlaen llaw er mwyn rhoi amser i bawb gynllunio ar gyfer y cam nesaf. **Ar hyn o bryd, nid yw'r sefyllfa yng Nghymru wedi newid ac nid oes disgwyl i ysgolion ailagor ar 1 Mehefin. Felly, byddwn yn eich cynghori i anwybyddu unrhyw negeseuon a rennir gan naill ai San Steffan neu gwmnïau masnachol gydag ysgolion yn Lloegr.**

Hoffem hefyd achub ar y cyfle i'ch sicrhau y byddwn yn gweithio'n agos ac yn effeithiol gyda chi a'ch awdurdod lleol pan ddaw cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i ailagor ysgolion, a hynny er mwyn sicrhau pontio mor llyfn ag y bo modd.

CYNNWYS

GwE

- [Google Classroom i Gymorthyddion Dysgu](#)
- [Cysylltu â GwE](#)
- [Adnoddau GwE ar Google Classroom](#)
- [Diweddariadau Covid-19 GwE](#)
- [Diweddariad ar Ganllawiau Athrawon Newydd Gymhwysu](#)

Llywodraeth Cymru

- [Diweddariad Llywodraeth Cymru ar Sefyllfa Ysgolion ar Hyn o Bryd](#)
- [Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu.](#)
- [Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru](#)
- [Cefnogi eich plant i ddefnyddio'r Gymraeg gartref](#)
- [Adnoddau Dysgu o Bell Ôl-16](#)
- [Diweddariadau Covid 19 Llywodraeth Cymru](#)
- [Cylchlythyr Dysg](#)

Arall

- [Prosiect Darllen Ar-lein Gogledd Cymru - Cadw Disgyblion i Ddarllen!](#)
- [Ysgolion: Cyrsiau am Ddim i Breswylwyr Gogledd Cymru](#)
- [Cylchlythyr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol](#)
- [Dysgwyr Cymraeg – BBC Bitesize](#)



Mae gwaith ar y gweill mewn partneriaeth efo swyddogion awdurdod lleol i ddatblygu fframwaith rhanbarthol fydd yn sicrhau bod ysgolion yn cael cefnogaeth gynhwysfawr gyda'r gwaith o ailagor. Bydd y Fframwaith yn cynnwys asesiadau risg a pholisïau/canllawiau drafft, yn rhoi sylw i ystod o feysydd i ysgolion eu hystyried a'u datblygu. Bydd dull gweithredu rhanbarthol hefyd yn rhoi hyder i staff, disgyblion a rhieni y bydd cysondeb a thegwch yn sut y bydd addasu ysgolion yn cael ei reoli.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth a rennir uchod yn ddefnyddiol.

Byddwn yn rhoi arweiniad pellach wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

[Cliciwch yma am gopi o'r llythyr](#)

Cadw'n Ddiogel. Stay Safe.
Dal ati i Ddysgu. Stay Learning!

Diweddariad Llywodraeth Cymru ar Sefyllfa Ysgolion ar Hyn o Bryd

Cyhoeddodd Kirsty Williams **na fydd** y sefyllfa yn newid i ysgolion ar 1 Mehefin. Ceir neges ynghylch y coronafeirws a'r wybodaeth ddiweddaraf ar addysg yng Nghymru [yma](#).

Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu.

CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL:

- [Rhaglen Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu](#)
- [Cyngor ar gyfer lleoliadau, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion \(UCD\) i'w cefnogi yn eu gwaith gyda dysgwyr - Datblygu dulliau i gefnogi dysgu o bell](#)
- [Cyngor i rieni/gofalwyr](#)
- [Offer dysgu o bell drwy Hwb](#)
- [Cyngor newydd i gynorthwyo arweinwyr ysgolion ac UC Dau i barhau â busnes ysgol](#)

Yn ogystal â'r arweiniad, mae adnoddau ar gael i helpu gyda pharatoi gweithgareddau dysgu. Rhennir y rhain â chi drwy eich Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant.

Gwybodaeth a Chanllawiau GwE

Google Classroom i Gymorthyddion Dysgu

Nodyn i'ch atgoffa bod adnoddau newydd yn cael eu hychwanegu yn rheolaidd. Rhannwyd y cod ar gyfer dudalen â phenaethiaid – gofynnwch i'ch pennaeth amdano os nad ydych wedi'i dderbyn eto.

Gweler y ddolen isod ar gyfer cyfarwyddiadau ar sut i gael mynediad i'r dudalen drwy ddefnyddio eich cyfrif Hwb:
<https://bit.ly/Cyfarwyddiadau-Google-Classroom-i-Gymorthyddion>

[Cliciwch yma](#) am gyfarwyddiadau dwyieithog ar sut i ddefnyddio Google Classroom.

Dyma linc i droslais yn egluro beth sydd yn y Google Classroom:
<https://bit.ly/Troslais-Google-Classroom>



Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr.

Cysylltwch â ni ar post@GwEGogledd.Cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Diweddariad ar Ganllawiau Athrawon Newydd Gymhwyso

Cafwyd lluo o ymholiadau ynglŷn ag athrawon newydd gymhwyso sy'n gwneud eu cyfnod sefydlu, a sut y bydd cau ysgolion yn effeithio ar eu gallu i lwyddo yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Gweler y canllawiau sefydlu diweddaraf, sydd wedi'u cymeradwyo gan y Gweinidog Addysg [yma](#).

Canllawiau ANG'au - Ebrill 2020

Yn ystod y pythefnos diwethaf mae pedwar cynrychiolydd y consortiwm wedi cynhyrchu taflen "cwestiynau cyffredin" yn ogystal â chreu dau fideo i ANG i geisio egluro canllawiau dros dro LIC a gyhoeddwyd ychydig wythnosau yn ôl.

A fydddech cystal â sicrhau bod yr arweiniad diweddar yn cyrraedd eich ANG yn eich ysgolion. Fel y tro diwethaf, bydd GwE yn cysylltu â'r Gwirwyr Allanol. Bydd y canllawiau hefyd ar gael ar wefannau GwE, CGA, Hwb a Llywodraeth Cymru.



Cyswllt y Fideo ar YouTube



Ffurflen Parhad Dysgu ac Addysgu



Trefniadau Sefydlu ANG yn Ystod COVID-19 – Cwestiynau Cyffredin

Manylion cyswllt arweinydd sefydlu GwE:

Ieuan Jones

✉ ieuanjones@gwegogledd.cymru

Adnoddau GwE ar Google Classroom

Mae arweiniad ar [Google Classroom](#) a Microsoft Teams ar gael. Cliciwch [yma](#) am wybodaeth bellach.

Diweddariadau Covid-19 GwE

Er mwyn ei gwneud yn haws i gael ffynhonnell a chyfeirbwynt, rydym wedi creu [gofod penodol ar ein gwefan](#) lle byddwn yn cynnwys holl ddiweddariadau gwybodaeth GwE a anfonwyd i ysgolion.

Bydd y gofod hefyd yn cynnwys dolenni defnyddiol, diweddariadau gan Lywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru ac ati.



Gwybodaeth a Chanllawiau Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

Lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar newidiadau i ddeddfwriaeth i gefnogi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel rhan orfodol o Cwricwlwm i Gymru. **Daw'r ymgynghoriad i ben ar 28 Gorffennaf.**

Cefnogi eich plant i ddefnyddio'r Gymraeg gartref

Am ganllawiau i rieni a gofalwyr i'w helpu i gefnogi eu plant i ddefnyddio'r Gymraeg gartref, [cliciwch yma](#).

Adnoddau Dysgu o Bell Ôl-16

Deunyddiau gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i'w defnyddio gyda myfyrwyr blwyddyn 12 a 13. Bydd y [ddolen hon](#) yn mynd â myfyrwyr i adnoddau pwnc-benodol yn ogystal â chyngor ac arweiniad gan brifysgolion. Dylid diweddarau'r dudalen we hon yn gyson, felly daliwch ati i chwilio am ychwanegiadau newydd. Datblygwyd yr adnoddau gan gydlynwyr SEREN ledled Cymru a Llywodraeth Cymru.

Diweddariadau Covid 19 Llywodraeth Cymru

Mae dolenni defnyddiol eraill Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r coronafirws i'w gweld isod:

- [Gwefan](#) Coronafirws Llywodraeth Cymru
- Coronafeirws (COVID-19): [canllawiau lleoliadau addysgol](#)
- Coronafeirws: [canllawiau teithio i sefydliadau addysg a myfyrwyr](#)
- Cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru <https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddara-f-am-coronavirus-newydd-covid-19/>
- Dilynwch ar Twitter [@LIC_Addysg](#) neu www.facebook.com/addysgcymru

Cylchlythyr Dysg

Sicrhewch eich bod yn derbyn diweddariadau a datblygiadau wythnosol Llywodraeth Cymru ar y sectorau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Cofrestrwch i Dysg [yma](#)

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

Prosiect Darllen Ar-lein Gogledd Cymru - Cadw Disgyblion i Ddarllen!

HEADSPROUT

Bellach, mae trwyddedau 90 diwrnod RHAD AC AM DDIM gan Headsprout, sy'n rhoi mynediad i hyfforddiant darllen a phhecyn hyfforddiant cynhwysfawr ar-lein gan Brifysgol Bangor, sydd hefyd AM DDIM.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

Os hoffech chi ymuno â'r prosiect, neu ofyn unrhyw gwestiwn, anfonwch e-bost at sarah.e.roberts@bangor.ac.uk



Ysgolion: Cyrsiau Ar-lein am Ddim i Breswylwyr Gogledd Cymru

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru / BIPBC yn falch iawn o gyhoeddi y gall staff a rhieni bellach gael mynediad at gwrs arloesol AR-LEIN am blant, sydd werth £39, yn rhad ac am ddim. Mae'r cwrs 'Deall Eich Plentyn' wedi'i lunio gan Solihull Approach, sef dull achrededig sy'n seiliedig ar dystiolaeth a sefydlwyd 20 mlynedd yn ôl gan seicolegwyr, ymwelwyr iechyd a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.

Mae'r cwrs fel arfer yn costio £39 y person. Fodd bynnag, trwy ddefnyddio'r cod mynediad: **NWSOL** (yn ddilys tan fis Tachwedd 2022) ar www.inourplace.co.uk, gallwch gofrestru ar gyfer eich cyfrif eich hun ac ailymweld â'r cwrs am flynyddoedd i ddod heb dalu ceiniog.

Mae'r cwrs 'Deall Eich Plentyn' ar gyfer rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gofalu am blant rhwng 0 a 18 mlwydd oed. Mae'n edrych ar ddatblygiad yr ymennydd, chwarae, mathau o rianta, cysgu, pyliau o dymer ddrwg, ac mae'n seiliedig ar gwrs wyneb yn wyneb a gynigir gan Solihull Approach, sydd wedi'i gydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae rhwng 9 a 11 modiwl yr un sy'n cymryd tua 20 munud (mae trosleisio dewisol ar y prif sgriniau) yn ogystal â gweithgareddau rhyngweithiol, cwisiau, clipiau fideo a thafenni ymarferol.

GWYBODAETH BELLACH:

[Gwybodaeth i Rieni](#)
[Tystebau Rhieni](#)



Cylchlythyr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

[Dyma](#) newyddion diweddaraf y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.



Dysgwyr Cymraeg – BBC Bitesize

Dymunai BBC Bitesize ddiolch yn fawr i bawb sy'n defnyddio'r adnoddau i ddysgu Cymraeg. Gweler eu fideo [yma](#).

post@gwegogledd.cymru

